**Rhif:** WG30671

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru

Dogfen Ymgynghori

# Casglu data am y gweithlu ysgolion yng Nghymru

Dyddiad cyhoeddi: 13 Ionawr 2017
Ymatebion erbyn: 3 Mawrth 2017

OGL © Hawlfraint y Goron 2017

# Casglu data am y gweithlu ysgolion yng Nghymru

**Trosolwg**

Mae’r ymgynghoriad hwn yn gofyn am sylwadau ar ddatblygu dull o gasglu data am y gweithlu ysgolion yng Nghymru a rheoliadau statudol drafft a fyddai’n galluogi cyfrifiad gweithlu ysgolion ar lefel unigolion.

**Sut i ymateb**

Dylech e-bostio/postio ymatebion i’r ymgynghoriad hwn i’r cyfeiriad isod erbyn **3 Mawrth 2017** fan hwyraf.

**Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig**

Gellir gwneud cais am fersiynau o’r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

Mae’r ddogfen ymgynghori ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.llyw.cymru/ymgynghoriadau

**Manylion cyswllt**

Rhagor o wybodaeth:

Cangen Ddata’r Gweithlu Addysg
Uned Strategaeth y Gweithlu
Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
e-bost: educationworkforcedata@cymru.gsi.gov.uk
Ffôn: 029 2082 5968

**Diogelu Data**

**Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni.**

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, dywedwch wrthym yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

# Cynnwys

**Crynodeb o'r cynigion** **2**
Cyflwyniad 2
Cefndir 2
Pam rydyn ni'n cynnig y newid hwn? 2
Cynigion ar gyfer newid 3
1. Manylion staff 4
2. Contract a chytundeb gwasanaeth 4
3. Absenoldeb 4
4. Cwricwlwm 4
5. Cymwysterau 4
6. Recriwtio a chadw 5
7. Y Gymraeg 5
Canlyniadau 5

# Crynodeb o'r cynigion

## Cyflwyniad

Mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar reoliadau drafft a fyddai'n caniatáu ar gyfer datblygu a gweithredu cyfrifiad o'r gweithlu ysgolion ar lefel unigolion yng Nghymru. Dylech ddarllen yr ymgynghoriad law yn llaw â'r rheoliadau drafft a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Cafodd y rheoliadau drafft eu datblygu ar ôl trafodaeth eang â rhanddeiliaid er mwyn nodi'r prif fylchau gwybodaeth a gofynion y dyfodol o ran cyflenwi gwybodaeth am y gweithlu ysgolion.

Mae'r ymgynghoriad yn agored i bob unigolyn a sefydliad. Bydd crynodeb o'r ymatebion yn cael ei gyhoeddi yn ystod gwanwyn 2017.

## Cefndir

Ar hyn o bryd, does dim proses casglu data ganolog sy'n casglu'r lefel ofynnol o wybodaeth sy'n hollbwysig er mwyn cynllunio a datblygu'r gweithlu ysgolion yng Nghymru yn llwyddiannus at y dyfodol. Ar hyn o bryd caiff gwybodaeth gyfyngedig am y gweithlu ei chasglu trwy gyfrwng ymarferion casglu data ac arolygon amrywiol gydol y flwyddyn. Mae gwybodaeth gyfanredol am faint y gweithlu'n cael ei chasglu bob blwyddyn yn y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) ac mae Cyngor y Gweithlu Addysg yn casglu rhywfaint o wybodaeth ddemograffig am athrawon fel rhan o'r broses gofrestru. Hefyd, mae Llywodraeth Cymru yn casglu data am absenoldeb salwch athrawon ar lefel gyfanredol gan awdurdodau lleol bob blwyddyn.

Ar ôl cyhoeddi argymhellion Adroddiad Silk yn 2014, a'r cyhoeddiad dilynol gan y Prif Weinidog ar ddatganoli cyflogau ac amodau gwaith athrawon, pwysleisiwyd yr angen am ddull mwy manwl a chadarn o gasglu data am y gweithlu ysgolion er mwyn ategu'r cyfrifoldebau newydd hyn. Bydd casglu'r data hwn yn sicrhau bod gan Lywodraeth Cymru ddata o ansawdd ddigonol er mwyn helpu yn y gwaith o ragweld cyflogau athrawon yng Nghymru, llywio trafodaethau a phenderfyniadau ar faterion cyflogau, ac yn rhoi mwy o dystiolaeth er mwyn helpu i gynllunio ar gyfer gweithlu'r dyfodol.

Os ceir cytundeb ar y cynigion i ddechrau casglu data, mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i gael gwared ar y ddau ddull cyfredol o gasglu data am y gweithlu ysgolion:

- Elfennau gweithlu'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD).
- Casglu data blynyddol am absenoldeb salwch athrawon.

## Pam rydyn ni'n cynnig y newid hwn?

Mae'r wybodaeth gyfyngedig sy'n cael ei chasglu ar hyn o bryd yn golygu ei bod hi'n anodd darparu tystiolaeth fanwl er mwyn ategu penderfyniadau polisi a monitro datblygiad y gweithlu. Byddai gwell dealltwriaeth o ddemograffeg y gweithlu yn helpu i baratoi'n well ar gyfer newidiadau posib yn y dyfodol ac yn llywio'r broses o recriwtio, datblygu a chadw'r gweithlu yma yng Nghymru.

Yn aml, nid yw'r casgliadau data niferus sy'n cael eu cynnal yn ganolog a gan sefydliadau allanol gydol y flwyddyn yn cael eu cydlynu, a gallant fod yn faich diangen ar ysgolion ac awdurdodau lleol. Mae'r data a gesglir yn cael ei gofnodi mewn ffordd anghyson gan

ddarparwyr ddata yn aml, mae'n anghydnaws â chasgliadau eraill ac nid yw'n cynnwys gwybodaeth bwysig fel cymwysterau a chyflogau athrawon.

Byddai dull canolog a chydlynus o gasglu data yn sicrhau cysondeb o ran y ffordd mae data'r gweithlu yn cael ei reoli a'i adrodd, ac yn golygu bod prosesau data a gyflawnir gan ysgolion ac awdurdodau lleol yn fwyfwy effeithlon. Byddai hefyd yn golygu y gellid casglu eitemau o ddata nad ydynt ar gael ar hyn o bryd, fel cyflog a chymwysterau, sy'n hanfodol er mwyn deall maint a nodweddion y gweithlu a'i gostau cysylltiedig.

Cafodd sawl opsiwn ei ystyried er mwyn datblygu'r broses o gasglu data am y gweithlu ysgolion:

1. Parhau â'r prosesau cyfredol o gasglu data ar lefel gyfanredol gan ysgolion ac awdurdodau lleol.
2. Anfon arolwg ar lefel unigolion i sampl o ysgolion ac awdurdodau lleol.
3. Casglu cyfrifiad ar lefel gyfanredol gan ysgolion ac awdurdodau lleol.
4. Casglu cyfrifiad ar lefel unigolion gan ysgolion ac awdurdodau lleol.
5. Casglu a chysylltu gwybodaeth ar lefel unigolion o ysgolion, awdurdodau lleol a cofrestr Cyngor y Gweithlu Addysg o athrawon a gweithwyr cymorth dysgu ar hyn o bryd.

Nid yw parhau â'r prosesau cyfredol yn effeithiol nac yn effeithlon yn yr hirdymor, gan na fyddant yn darparu canlyniadau digon cadarn a chywir ar gyfer cynllunio'r gweithlu yn y dyfodol gan gynnwys dyrannu lleoedd ar gyfer Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon a chyfrifo bil cyflogau'r gweithlu.

Cyfrifiad ar lefel unigolion yw dewis a ffefrir, gan y byddai'n darparu data mwy cywir o ansawdd a mwy cywir na'r data o arolwg ar lefel gyfanredol neu gyfrifiad. Byddai cyfrifiad ar lefel unigolion hefyd yn rhoi mwy o wybodaeth hefyd am effaith newidiadau o fewn y gweithlu. Bydd y data a gesglir yn cael ei ddefnyddio i greu sylfaen dystiolaeth wybodus, yn enwedig ynglŷn â recriwtio a chadw, trosiant y gweithlu a symudedd, cynnydd, cydraddoldeb ac amrywiaeth.

Ar ben hynny, mae gwneud defnydd gwell o ffynonellau data gweinyddol cyfredol yn nod strategol allweddol gan Wasanaeth Ystadegol y Llywodraeth[1]. Gallai defnydd cynyddol a mwy effeithiol o ddata gweinyddol leihau ein dibyniaeth ar gasglu arolygon, a fydd yn ein galluogi ni i leihau baich a chostau. Mae strategaeth gyffredinol Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth yn trafod yr angen i leihau'r pwyslais ar gasglu data, trwy gydweithio mwy a rhannu data, ac felly bydd defnyddio ffynonellau gweinyddol cyfredol yn cyd-fynd â hyn.

## Cynigion ar gyfer newid

Nod yr ymgynghoriad hwn yw gofyn am farn defnyddwyr ar y rheoliadau statudol drafft er mwyn cynnal cyfrifiad ar lefel unigolion o'r gweithlu ysgolion.

Bydd eich cyfraniad chi'n ein helpu ni i ddeall beth fydd effaith y cynigion hyn ar unigolion a sefydliadau fel darparwyr data, a fyddai'n cael eu heffeithio gan gyflwyno cyfrifiad ar lefel unigolion o'r gweithlu ysgolion.

[1] https://gss.civilservice.gov.uk/wp-content/uploads/2014/01/GSS-Data-Strategy-Data-for-the-public-good.pdf

Byddai'r rheoliadau drafft yn gorfodi gofynion ar awdurdodau lleol ac ysgolion a gynhelir (gan gynnwys ysgolion arbennig ac Unedau Cyfeirio Disgyblion) i gyflenwi gwybodaeth am athrawon a staff cymorth yn y meysydd canlynol:

1. **Manylion staff**
Mae casglu nodweddion allweddol y gweithlu ysgolion yn bwysig er mwyn deall maint a chyfansoddiad y gweithlu ysgolion. Mae angen rhai eitemau o ddata adnabod unigol, gan gynnwys enw, dyddiad geni, rhif yswiriant cenedlaethol a rhif cyfeirnod athro, er mwyn cysylltu data a sicrhau ansawdd. Bydd yn caniatáu i ni wirio a dilysu eitemau data unigol er mwyn sicrhau bod y wybodaeth a gesglir o ffynonellau niferus fel systemau awdurdodau lleol a chofrestr Cyngor y Gweithlu Addysg yn gywir a chyflawn. Mae gwybodaeth fel rhyw, anabledd ac ethnigrwydd yn hollbwysig er mwyn nodi problemau posib o ran demograffeg y gweithlu, fel anghydbwysedd rhwng y rhywiau ac anghydraddoldeb cyflog.

2. **Contract a chytundeb gwasanaeth**
Mae angen eitemau data sy'n ymwneud â chyflog a chontractau er mwyn datblygu strwythur cyflogau i Gymru, yn ogystal â mesur costau cyflogau athrawon Cymru yn gywir ac effaith y newidiadau yn y gweithlu. Adran Addysg San Steffan (DfE) sy'n cynnal rhagolygon cyflog athrawon ar gyfer Cymru a Lloegr ar hyn o bryd, ond yn seiliedig ar ddata Lloegr yn bennaf, ac felly nid yw'n darparu adlewyrchiad cywir o'r gweithlu yng Nghymru. Byddai gwybodaeth fwy trylwyr am y gweithlu ysgolion yng Nghymru yn darparu sylfaen gref ar gyfer modelu newidiadau polisi a allai effeithio ar y gweithlu.

3. **Absenoldeb**
Mae angen dadansoddiad manwl o absenoldebau salwch er mwyn deall amodau'r gweithlu yng Nghymru. Hefyd, roedd adroddiad Estyn[2] ar absenoldeb salwch athrawon a gyhoeddwyd yn 2013 yn awgrymu nad yw'r rhan fwyaf o ysgolion yn rhoi digon o flaenoriaeth i reoli effaith absenoldebau athrawon nac ar werthuso effaith hynny ar ansawdd profiadau'r dysgwyr. Byddai gwybodaeth fanylach am absenoldebau salwch yn helpu ysgolion ac awdurdodau lleol i reoli absenoldebau'n fwy effeithiol, sicrhau mwy o gymorth penodol i fynd i'r afael â phroblemau'r gweithlu, gan arwain at ganlyniadau gwell i ddysgwyr.

4. **Cwricwlwm**
Byddai casglu eitemau sy'n ymwneud â'r cwricwlwm fel grŵp blwyddyn a phwnc yn caniatáu ffordd mwy hyddysg o gynllunio'r gweithlu ac olyniaeth. Byddai'n helpu i nodi meysydd lle mae pryderon posib yn y gweithlu ymlaen llaw, fel prinder athrawon mewn meysydd pwnc penodol ac yn fodd i ni ddeall effaith y bwriad i ddiwygio'r cwricwlwm[3] yn well.

5. **Cymwysterau**
Byddai dealltwriaeth well o gymwysterau'r gweithlu yn helpu i nodi lefelau sgiliau'r gweithlu ar hyn o bryd a'r cyfleoedd posib i ddatblygu rhaglenni datblygiad proffesiynol pellach. Bydd hyn yn fodd i dargedu adnoddau'n gywir er mwyn diwallu anghenion cyfredol ysgolion a'r gweithlu addysg yng Nghymru.

---

[2] http://llyw.cymru/topics/educationandskills/schoolshome/raisingstandards/estynremit/estynreports/impact-of-teacher-absence/?skip=1&lang=cy
[3] http://llyw.cymru/topics/educationandskills/schoolshome/curriculum-for-wales-curriculum-for-life/?skip=1&lang=cy

6. **Recriwtio a chadw**
   Mae angen mwy o wybodaeth am faterion recriwtio a chadw er mwyn deall maint yr her o ran cyflenwi ar gyfer y gweithlu ysgolion. Byddai casglu data manylach yn helpu i wella cynllunio olyniaeth a sefydlogrwydd y gweithlu, ac yn ffordd fwy hyddysg o osod targedau derbyn ar gyfer cyrsiau hyfforddiant athrawon.

7. **Y Gymraeg**
   Rydym angen dealltwriaeth well o sgiliau Cymraeg y gweithlu a gallu'r gweithlu i weithio trwy gyfrwng y Gymraeg ac addysgu'r iaith. Byddai casglu data manylach yn helpu i bennu targedau o ran adnoddau a beth yw'r gofynion ar gyfer datblygu'r ddarpariaeth Gymraeg mewn ysgolion, yn unol â strategaeth iaith Gymraeg y llywodraeth[4] a chyflwyno'r cwricwlwm Cymraeg newydd.

Dim ond y ffynonellau canlynol fyddai'r cyfrifiad yn eu defnyddio i gasglu'r data:

- Cofrestr Cyngor y Gweithlu Addysg sy'n dal eitemau o ddata yn ymwneud â manylion staff, fel rhyw, ethnigrwydd ac anabledd. Mae hefyd yn cynnwys gwybodaeth am gymwysterau'r gweithlu ysgolion.
- Systemau adnoddau dynol a chyflogres awdurdodau lleol sy'n cynnwys manylion am gontractau a chytundebau gwasanaeth a data absenoldeb.
- Systemau Gwybodaeth Reoli Ysgolion (MIS) sy'n cynnwys eitemau data am y cwricwlwm fel amser cyswllt yn yr ystafell ddosbarth a'r pynciau sy'n cael eu haddysgu gan aelod o'r staff. Mae ysgolion yn darparu gwybodaeth am swyddi gweigion a chadw staff hefyd.

Mae gwneud defnydd o ffynonellau data cyfredol, a'u gwella, yn osgoi'r angen i ddarparwyr data ailadrodd eu hymdrechion, yn osgoi casglu'r eitemau data fwy nag unwaith ac yn lleihau'r baich ar ysgolion ac awdurdodau lleol.

Bydd eitemau o ddata sy'n golygu y gellir adnabod unigolion yn cael eu casglu at ddibenion cyswllt, er mwyn paru cofnodion â ffynonellau data gweinyddol perthnasol. Byddai'r cyfrifiad yn cydymffurfio ag egwyddorion craidd y Ddeddf Diogelu Data, gyda'r sicrwydd y bydd data personol yn cael ei gadw'n gwbl ddiogel ac yn cael ei ddefnyddio at y diben bwriedig yn unig.

## Canlyniadau

Byddwn ni'n cyhoeddi ymateb yn dilyn canlyniad yr ymgynghoriad hwn. Gallai gynnwys rhai o'r ymatebion a ddaw i law – ac eithrio rhai gan ymatebwyr sy'n gofyn am aros yn ddienw. Byddwn yn cynnwys adborth o ddigwyddiadau ymgysylltu â rhanddeiliaid hefyd, lle bo'n briodol.

Os bydd pawb yn cytuno ar gynigion yr ymgynghoriad, yna bydd y rheoliadau cyflenwi gwybodaeth yn dod i rym yn ystod hanner cyntaf 2017. Bydd Llywodraeth Cymru'n ymgysylltu ag awdurdodau lleol ac ysgolion i'w cynghori ar ddatblygiad prosesau er mwyn casglu data ar lefel unigolion ar y gweithlu ysgolion bob blwyddyn.

Y bwriad ar hyn o bryd yw cynnal cyfrifiad bob blwyddyn ym mis Tachwedd, gyda'r cyfrifiad cyntaf yn Nhachwedd 2019. Bydd ysgolion ac awdurdodau lleol yn cael digon o amser i gwblhau eu ffurflenni data. Rydyn ni'n cynnig y dyddiad hwn gan ei fod yn osgoi cyfnodau

[4] http://llyw.cymru/betaconsultations/welshlanguage/welsh-language-strategy-consultation/?skip=1&lang=cy

gweinyddol prysur i awdurdodau lleol ac ysgolion, gan gynnwys diwedd y flwyddyn dreth, dechrau'r flwyddyn academaidd, cyfnodau arholiadau ysgolion a chasgliadau data eraill.

Bydd canlyniadau'r cyfrifiad yn cael eu cyhoeddi ar lefel gyfanredol mewn adroddiad ystadegol blynyddol â thablau data, ar gael ar StatsCymru[5]. Byddai'r casgliadau data cyfredol am y gweithlu, gan gynnwys data am absenoldebau salwch athrawon a'r adrannau o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion sy'n ymwneud â'r gweithlu, yn dod i ben fel rhan o'r broses o resymoli casgliadau data cyfredol.

[5] https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue